

# Mwydod neu bryfed genwair ac iechyd y pridd

Mehefin 2019



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**08456 000 813**

O dan amgylchiadau delfrydol, mae poblogaeth iach o fwydod (neu bryfed genwair) yn gallu prosesu tua 12 tunnell o bridd a deunydd organig mewn blwyddyn, a bydd gan borfeydd iach stoc sy'n pwysu mwy o dan yr wyneb nag uwchben yr wyneb. Mae ffigurau ymchwil Gorsaf Ymchwil Rothamsted yn awgrymu bod hyd yn oed bridd gwael yn cynnwys hyd at 600,000 o fwydod yr hectar (62/m<sup>2</sup>): ar dir glas iach gall y pridd gynnwys hyd at 4,300,000 o fwydod yr hectar (432/m<sup>2</sup>).

## Y manteision ar gyfer iechyd y pridd

Mae mwydod yn **gwella adeiledd y pridd** drwy lusgo deunydd organig i lawr, **cymysgu pridd** a chreu twneli sy'n gwella'r **draeniad**. Mae **baw mwydod** yn cynnwys toreth o faeth sydd wedi'i ailgylchu o blanhigion, ac mae'n gallu cynnwys hyd at 40% yn fwy o hwmws buddiol na'r 23cm uchaf o'r pridd. Mae ymchwil wedi dangos bod baw mwydod ffres yn gallu cynnwys hyd at bum gwaith yn fwy o **nitrogen** hwylus, saith gwaith yn fwy o **ffosfforws** hwylus ac 11 gwaith yn fwy o botash hwylus na'r uwchbridd o'u cwmpas. Yr amcangyfrif yw bod **rhyw 3,000 o wahanol rywogaethau** o fwydod ar gael ledled y byd, a bod oddeutu **27 o rywogaethau yn y Deyrnas Unedig**.

## Dyma'r tri math mwyaf cyffredin:

### Mwydod sy'n byw ar ddeunydd organig (Epigeiaidd)

- Byw ar wyneb y pridd neu'n agos i'r wyneb
- Tueddu i beidio â thyrchu i'r pridd
- Bwyta deunydd sy'n cynnwys llawer o ddeunydd organig, e.e. gwreiddiau a blagar, tail a dail powdr
- Atgynhyrchu'n gyflym
- Produce stable casts
- Byrhoedlog
- Yn aml yn goch llachar heb streipiau



Is-grŵp o'r rhain yw **mwydod compost**. Mae'n well gan y rhain amgylchedd cynnes a llaith sydd â digon o ddeunydd compost ffres. Maen nhw'n bwyta'r deunydd hwn yn sydyn ac yn atgynhyrchu'n gyflym. Mae mwydod compost yn tueddu i fod yn goch llachar, yn streipiog ac yn fwy na mwydod eraill sydd wedi tyfu'n llawn.

### Mwydod sy'n byw yn yr uwchbridd (Endogeaidd)

- Byw yn yr 20-30cm uchaf o'r pridd
- Bwyta cryn dipyn o bridd a deunydd organig powdr
- Tyrchu drwy'r pridd, gan fwyta wrth fynd, a chreu twneli llorweddol canghennog a chymysgu haen uchaf y pridd – yn ailddefnyddio twneli i raddau
- Heb fod yn bwysig o safbwynt ymgorffori sbwriel oddi ar wyneb y pridd
- Cynhyrchu baw sefydlog
- Atgynhyrchu'n sydyn – rhyw 1.4 o rai bach i bob oedolyn bob wythnos mewn rhai o'r rhywogaethau!
- Dim lliw croen – llwyd golau neu felyn fel arfer



## Mwydod sy'n byw yn yr isbridd (Aneceiadd)

- Tyrchu'n ddwfn
- Creu twneli mawr, fertigol, parhaol hyd at ddau fetr o ddyfnder ym mhroffil y pridd
- Codi i'r wyneb i fwydo, gan dynnu gweddillion planhigion a deunydd planhigion byw i geg y twnnel i'w feddalu a'i fwyta
- Cyfrifol am lawer o'r baw mwydod sydd i'w weld ar wyneb tir glas – o amgylch ceg y twneli fel arfer
- Mae gwaith i drin y tir a chylchdro cnydau sy'n lleihau'r gweddillion ar yr wyneb yn cael dylanwad mawr ar y boblogaeth. I osgoi cael eu bachu gan ysglyfaethwyr, mae'r rhywogaeth *L. terrestris* wedi magu gwrych neu flew bach sy'n gallu cael eu tyngu'n ôl, i afael yn wal y twnnel
- Liw tywyll ar y pen a mwy golau tag at y gynffon



## Yr amgylchiadau gorau i sicrhau nifer dda o fwydod

**Tymheredd y pridd** – mae'r rhan fwyaf o rywogaethau yn hapus ar dymheredd amrywiol ond bydd angen **isafswm o ryw 7°C**. O dan hynny, mae'r boblogaeth o oedolion yn gostwng, er y bydd yr wyau'n gallu goroesi.

**Swm da o ddeunydd organig** – heb **fater organig**, fydd y boblogaeth mwydod ddim yn gallu ei chynnal ei hun. Bydd niferoedd y mwydod yn is mewn priddoedd sydd heb lawer o ddeunydd organig.

**pH y pridd** – mae pridd asidig yn amharu'n fawr ar niferoedd mwydod. Er bod rhai rhywogaethau yn y Deyrnas Unedig wedi'u gweld mewn pridd â pH4.3, **uwchlaw pH6 sydd orau**.

**Cywasgu'r pridd** – i raddau, mae cywasgu yn y pridd yn gallu peri i'r mwydod ynddo fynd ati i greu baw mwydod, ond mae cywasgu'r pridd yn drwm yn cyfyngu ar allu'r mwydod i dyrchu, gan wneud anawsterau pridd cywasgedig yn waeth. Mewn pridd sydd â digon o aer ynddo, bydd symudiadau'r mwydod yn gweithio fel piston, gan yrru aer yn fwyfwy dwfn i'r pridd, sy'n gwella'r draeniad a faint o faeth sy'n cael ei godi. Mae eu twneli'n bwysig hefyd i adael i ddŵr ddod i'r pridd a thrwyddo. Gall llif dŵr i'r pridd yrru aer allan ohono i greu lle i awyr 'iach'.

## Pam mae mwydod mor bwysig?

Mae mwydod sy'n byw mewn deunydd organig, yn yr uwchbridd ac yn yr isbridd yn dod ag amryw o fanteision i'r ffermwr am eu bod yn gweithio drwy'r pridd i gyd, o'r wyneb i ddyfnder mawr ym mhroffil y pridd. Mae gwaith mwydod yn arwain at y canlynol:

- Gwella faint o faeth sydd ar gael – mae baw mwydod yn cynnwys toreth o faeth a phan fydd eu cyrff yn ydru, mae rhagor o faeth yn cael ei ryddhau i'r pridd
- Gwella draeniad – mae eu twneli'n caniatáu i aer a dŵr symud drwy'r pridd; mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg mewn systemau lle nad yw'r tir yn cael ei drin, lle gall symudiad dŵr drwy'r pridd fod yn llawer mwy nag mewn pridd sydd wedi'i drin
- Gwella adeiledd y pridd – drwy wella'r uwchbridd drwy greu agregau sefydlog yn y pridd sy'n gallu storio gwlybianaeth
- Gwella cynhyrchedd – o ganlyniad i'r uchod i gyd

## Rhagor o wybodaeth

Cymdeithas Mwydod Prydain [www.earthwormsoc.org.uk](http://www.earthwormsoc.org.uk)

Fideo YouTube: [The Amazing World of Earthworms in the UK](#)



08456 000 813  
[www.llyw.cymru/cyswlltfermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltfermio)

